# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | David Cole | Adran Etholiadol: | Penyrheol |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd misol ar wahân ym Mhengelli a Phenyrheol. Cynhaliais arolwg biniau graean yn y ddwy ardal i ganfod faint o stoc sydd. Euthum i'r ddau gyfarfod cyhoeddus i drafod safleoedd sipsiwn a theithwyr yn y ward. Gweithiais gyda'r Adran Priffyrdd i nodi heolydd/llwybrau nad ydynt yng nghynllun gwaith 2013 i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys lle y bo angen. Gweithiais gyda'r Adran Priffyrdd i nodi meysydd o bryder yn y ward e.e. siop Nisa, Heol Frampton, Heol Brynawel (y tu allan i'r ysbyty).

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

***Caiff yr adran hon ei llenwi gan yr Adran Cefnogi Aelodau.***

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 12 | / | 12 | 100 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 9 | / | 10 | 90 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 14 | / | 16 | 88 | % |
| Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 98 | / | 107 | 92 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Euthum i gyfarfodydd misol Cyngor Cymuned Pengelli a Chyngor Tref Gorseinon. Euthum i gyfarfodydd misol Grŵp Llafur Gorseinon a'r Cylch. Roeddwn yn aelod o Uned Gydnerthu ar gyfer cynghorau Abertawe/Castell-nedd Port Talbot. Aelod o Banel Cronfa Datblygu Cynaliadwy AoHNE Gŵyr ac aelod o Bwyllgor Coffa'r Is-swyddog Evans. Aelod o'r gweithgorau/paneli canlynol: Adeiladau Hanesyddol; Tai Fforddiadwy; Anweithgarwch Economaidd; Prydau Ysgol; Pwyllgor Craffu Parciau, darpariaeth safleoedd sipswn a theithwyr. Aelod hefyd o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (awdurdod tân).

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Roeddwn yn aelod o Bwyllgor Carnifal 2013 a ailgyflwynodd y Carnifal i Gorseinon. Roeddwn yn ganolog wrth sefydlu Melin Mynach fel Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur.

Gweithiais gyda Chyngor Cymuned Pengelli/Ysgol Gynradd Pengelli er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r angen am groesfan cerddwyr a reolir ar y Stryd Fawr.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

27/03/2014 - Deall Materion Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

Hefyd, euthum i sesiwn Ymgynghori Abertawe Mwy Diogel ar 11/03/14

Roeddwn yn arfer gweithio fel Rheolwr Iechyd a Diogelwch yr Amgylchedd, felly cefais hyfforddiant trwyadl ym mhob agwedd ar reoli risgiau/asesu risgiau.  Cefais hyfforddiant hefyd ym maes rheoli prosiectau.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn arfer bod yn gapten clybiau rygbi Gorseinon a Chastell-nedd.  Yn gerddwr brwd, rwyf wedi ymweld ag AoHNE Gŵyr yn helaeth. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn cynnal a chadw mannau agored yn lleol. Roeddwn (ac ar yr adeg llunio hwn rwyf o hyd) yn aelod o'r sefydliadau canlynol: RNLI; RSPB; Gwlyptiroedd (Penclacwydd); Sefydliad Clefyd yr Afu i Blant.  Rhoddwr gwaed rheolaidd, wedi rhoi dros 40 gwaith.  Aelod o Glwb Cerdded Mawr a Llywodraethwr Ysgol Gynradd Penyrheol.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14.05.14 |